

Y CRIW Mentrus

Cystadleuaeth Ysgolion Cynradd



Pam bod yn Gefnogwr Busnes y Criw Mentrus?

Mae cefnogwyr busnes yn chwarae rhan bwysig iawn yn llwyddiant a datblygiad cyson Cystadleuaeth y Criw Mentrus i Ysgolion Cynradd yng Nghymru.

Rydym yn chwilio am sefydliadau sy'n gallu cynnig help mewn amrywiaeth o ffyrdd.

Efallai eich bod yn chwilio am fuddion penodol drwy gefnogi prosiect fel hwn. Felly, os nad oes pecyn sy'n addas byddwn yn gweithio'n hyblyg gyda chi i ddatblygu pecyn pwrpasol er mwyn sicrhau ein bod ni'n diwallu'ch anghenion chi yn ogystal ag anghenion y Cystadleuaeth.

Dyma rai o'r ffyrdd y gallech chi gefnogi a gwneud gwahaniaeth i brofiad plant Ysgol Gynradd yng Nghymru wrth gyflawni Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol (CCC) eich cwmni ar yr un pryd.

Noddi

Mae yna nifer o Gyfleoedd Noddi ar gael i chi eu hystyried. Gallech ddod yn Brif Noddwr y gystadleuaeth i gyd neu noddi un o ddigwyddiadau'r Rowndiau Cynderfynol.

Byddwn yn gweithio gyda chi i ddod o hyd i gyfle sy'n gweddu i'ch anghenion ac yn cynnig cysylltiadau cyhoeddus positif i gynyddu eich enw da ymhlith eich cynulleidfaoedd targed.

Rhoddion mewn Nwyddau

Gwobrau a Chymhellion

Bob blwyddyn cynhaliwn ddigwyddiadau Cynderfynol yn ogystal â Rownd Derfynol Genedlaethol.

Efallai bod gan eich cwmni ddiddordeb mewn rhoi gwobrau a/neu gymhellion ar gyfer y disgyblion a'r ysgolion hynny sy'n cymryd rhan. Eleni byddwn hefyd yn cyhoeddi gwobrwyon fan a'r lle misol fel y bydd y ceisiadau yn ein cyrraedd.

Gallai hyn fod yn wobwr i ysgolion fel offer, adnoddau addysgol neu weithgareddau a theithiau sy'n gysylltiedig â busnes i'r disgyblion.

Drwy wneud hyn byddwch yn codi'ch proffil ymhlith y cyfranogwyr, derbyn cydnabyddiaeth ar y wefan ac mewn gweithgarwch PR, ac ymhlith aelodau allweddol yn y Llywodraeth a byd Busnes.

Mae'n ffordd wych o arddangos eich cynhyrchion a'ch gwasanaethau hefyd.

Sgiliau proffesiynol

Fel perchennog neu weithiwr busnes gallech chi gynnig eich sgiliau i gefnogi ysgolion wrth ddatblygu eu Prosiect Menter.

Gallai'r gefnogaeth hon gymryd sawl ffurf fel:

- mentora;
- cynnig anerchiadau ar faterion busnes penodol fel Marchnata neu Gyllid; neu
- gefnogi ysgolion wrth iddynt gynllunio eu busnes a'i roi ar ben y ffordd.

Rhoddion

Efallai eich bod chi am wneud rhodd ar ffurf cyllid sbarduno neu fenthyciad i'ch ysgol leol i roi cic-gychwyn i'w 'Busnes'. Gallai hyn fod yn unrhyw beth o £5 - £100 – beth bynnag rydych yn teimlo y gallwch ei fforddio.

Mae hyn yn ffordd ardderchog o roi rhywbeth yn ôl i gymunedau ar hyd a lled Cymru, yn ogystal â chyfrannu at ymrwymïadau cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol eich cwmni.

Gallwn ni eich helpu i nodi ysgolion a fyddai'n elwa ar eich cefnogaeth yn y modd hwn.

Gwirfoddoli

Rydym yn chwilio am wirfoddolwyr corfforaethol i weithio gyda ni mewn nifer o ffyrdd fel:

- gweithio ochr yn ochr ag ysgolion i'w cefnogi i ddeall yr hyn sydd ei angen i sefydlu busnes a bod yn entrepreneuriaidd
- helpu i hyrwyddo'r Gystadleuaeth i ysgolion a chynyddu cyfranogiad
- cynnig sgiliau a phrofiad proffesiynol i ddarparu cyngor a chymorth am ddim i ysgolion
- rhoi help llaw mewn digwyddiadau fel y Rowndiau Cynderfynol a Chenedlaethol.

Am fwy o wybodaeth am sut all eich cwmni chi gymryd rhan cysylltwch â ni yn **Helo@YCriwMentrus.com** neu ffoniwch ni ar **0844 736 6150**.



Syniadau Mawr
Cymru
Big Ideas
Wales

Busnes | Business
Cymru | Wales



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cystadleuaeth y Criw Mentrus 2019/20 Pecynnau Noddi

Prif Noddwr - £5,000+TAW

(Cyfyngedig i un noddwr yn unig)

- Cyfle i fod yn gysylltiedig yn llawn â Llywodraeth Cymru a Chystadleuaeth y Criw Mentrus i Ysgolion Cynradd.
- Logo ar yr holl ddeunydd hyrwyddo a deunyddiau i ysgolion sy'n gysylltiedig â'r gystadleuaeth, partneriaid, AALI, beirniaid, busnesau a chynulleidfaoedd allanol, gan gynnwys y pecyn ymgeisio electronig, newyddlen, hysbysiadau electronig, rhaglenni digwyddiadau, tystysgrifau, placiau a thlysau.
- Logo a chydnabyddiaeth ar Dudalen Hafan gwefan y Gystadleuaeth gyda hyperddolenni â gwefan y noddwr ei hun.
- Eich enwi mewn hysbysiadau i'r wasg a gyhoeddir i'r cyfryngau.
- Cynnwys cynrychiolydd mewn lluniau gyda'r enillwyr/ goreuon. (os yn ddigwyddiad wyneb i wyneb)
- Cynrychiolydd yn cael ei gynnwys mewn ffilm(iau) o'r digwyddiadau.
- Cyfle i siarad mewn digwyddiadau
- Eich enwi gan y gwesteior mewn digwyddiadau
- Logo ar bob arddangosiad clyweledol mewn digwyddiadau Cynderfynol a Chenedlaethol.
- Opsiwn i gynnwys eitem hyrwyddiadol ar gyfer disgyblion a chynrychiolwyr eraill mewn digwyddiadau
- Cyfle i gael hyd at ddau stondin gwybodaeth ym mhob digwyddiad y gystadleuaeth.(os yn ddigwyddiad wyneb i wyneb)
- Cyfle i gyflwyno gwobrau i'r timau buddugol (os yn ddigwyddiadau wyneb i wyneb)
- Cyfle i anfon beirniad at bob un o'r digwyddiadau

Syniadau Mawr
Cymru
Big Ideas
Wales

Busnes | Business
Cymru | Wales



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Noddwr Cysylltiol - £3,000+TAW

Cydnabyddiaeth fel Noddwr Cysylltiol:

- Logo ar ddeunyddiau electronig a phrintiedig ar gyfer ysgolion, partneriaid, AALI, beirniaid, busnesau a chynulleidfaoedd allanol.
- Logo a chydabyddiaeth ar wefan y Gystadleuaeth gyda hyperddolenni â gwefan y noddwr ei hun.
- Eich enwi mewn hysbysiadau i'r wasg a gyhoeddir i'r cyfryngau.
- Cynrychiolydd yn cael ei gynnwys mewn lluniau gyda'r enillwyr/goreuon. (os yn wyneb i wyneb).
- Eich enwi mewn ffilm(iau) o ddigwyddiadau.
- Eich enwi gan y cyflwynydd mewn digwyddiadau
- Logo ar bob arddangosiad clyweledol mewn digwyddiadau
- Opsiwn i gynnwys eitem hyrwyddiadol ar gyfer disgyblion a chynrychiolwyr eraill mewn digwyddiadau
- Cyfle i gael stondin gwybodaeth ym mhob digwyddiad y gystadleuaeth.(os yn wyneb i wyneb)
- Cyfle i gyflwyno gwobrau mewn digwyddiadau (os yn wyneb i wyneb)
- Cyfle i anfon beirniad ym mhob digwyddiad

Noddwr Lleoliad y Rownd Derfynol Genedlaethol - £1,500+TAW

- Logo a chydabyddiaeth ar wefan y Gystadleuaeth gyda hyperddolenni â gwefan y noddwr ei hun.
- Eich enwi mewn hysbysiadau i'r wasg a gyhoeddir i'r cyfryngau mewn perthynas â'r Rownd Derfynol Genedlaethol
- Logo ar ddeunyddiau electronig a phrintiedig mewn perthynas â'r Rownd Derfynol Genedlaethol
- Eich enwi mewn ffilm o'r Rownd Derfynol Genedlaethol
- Eich enwi gan y cyflwynydd yn y digwyddiad
- Logo ar arddangosiad clyweledol yn y digwyddiad
- Cyfle i gael stondin gwybodaeth yn y digwyddiad Cenedlaethol (os yn wyneb i wyneb)
- Cyfle i gyflwyno gwobr yn y digwyddiad Cenedlaethol. (os yn wyneb i wyneb)

Noddwr Gwobr Arbennig - £1,000+TAW fel isafswm (Ar agor i sawl noddwr - un ar gyfer pob categori) e.e. Seren y Criw, Athro/ Athrawes y Criw, Ymgysylltu â Busnes

- Logo a chydnabyddiaeth ar wefan y Gystadleuaeth gyda hyperddolenni â gwefan y noddwr ei hun.
- Eich enwi mewn hysbysiadau i'r wasg a gyhoeddir i'r cyfryngau mewn perthynas â'r Wobr Arbennig a noddwr.
- Logo ar holl ddeunyddiau electronig a phrintiedig mewn perthynas â'r Wobr a noddwr.
- Eich enwi mewn ffilm o'r Wobr a noddwr.
- Eich enwi gan gyflwynydd yn y digwyddiad
- Logo ar arddangosiad clyweledol mewn perthynas â'r Wobr a noddwr.
- Cyfle i gael stondin gwybodaeth mewn digwyddiadau. (os yn wyneb i wyneb)
- Cyfle i gyflwyno'r Wobr a noddwr. (os yn wyneb i wyneb)
- Cyfle i ddarparu Gwobr

Cefnogwr Cystadleuaeth: £500+TAW

- Logo ar wefan y gystadleuaeth gyda dolen hyper i wefan y cefnogwr ei hun.
- Logo wedi'i gynnwys yn yr arddangosfa glywedol yn ystod digwyddiadau
- Cyfle i anfon beirniad (dwyieithog) i'r digwyddiad
- Cyfle i ddarparu gwobrwyon brand